# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 20 Tachwedd 2023

## SL(6)403 – Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) (Diwygio, Darpariaeth Drosiannol a Dirymu) 2023

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) (Diwygio, Darpariaeth Drosiannol a Dirymu) 2023 ("y Rheoliadau") yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) 2007 ("Rheoliadau 2007"), fel y'u diwygiwyd, mewn perthynas â phenodi Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ("y Comisiynydd").

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu y dylid penodi Comisiynydd sydd newydd ei benodi am gyfnod swydd sefydlog, na ellir ei ymestyn, o 7 mlynedd. Mae hyn yn disodli'r sefyllfa bresennol lle caiff y Comisiynydd ei benodi am gyfnod o 4 blynedd yn y swydd, y gall y Prif Weinidog ei ymestyn am 2 flynedd, neu caiff y Comisiynydd ailymgeisio am gyfnod swydd o bedair blynedd bellach o dan broses gystadleuol, ond nid am unrhyw dymor ychwanegol.

Mae'r diwygiadau yn sicrhau bod cyfnod swydd y Comisiynydd yn cyd-fynd â'r cyfnodau swydd y penodir Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chomisiynydd y Gymraeg ar eu cyfer.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig hwn rhwng 19 Mehefin a 12 Medi 2023.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006

**Fe'u gwnaed ar:** 01 Tachwedd 2023

**Fe'u gosodwyd ar:** 03 Tachwedd 2023

**Yn dod i rym ar:** 16 Rhagfyr 2023

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 20 Tachwedd 2023

## SL(6)411 – Rheoliadau'r Gofrestr o Ddarparwyr Gwasanaethau (Gwybodaeth Ragnodedig a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ('Deddf 2016') yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi gwybodaeth ychwanegol (rhif ffôn a chyfeiriad e-bost pob gwasanaeth) y mae'n rhaid ei dangos ar bob cofnod yn y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau a gynhelir gan y rheoleiddiwr gwasanaethau, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn darparu mecanwaith i AGC gasglu'r wybodaeth hon gan ddarparwyr gwasanaethau newydd neu ddarparwyr gwasanaethau presennol ac i'w hysbysu pan fo'r wybodaeth hon yn newid.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:**

**Yn dod i rym ar:** 05 Rhagfyr 2023